## Myfyrdod

Weithiau ymddengys nad yw Teyrnas Nef,
Yn ôl a welwn, yn eiddo iddo Ef.

Bydd bandiau'r Filitariaeth a'r milwyr mân
Yn cuddio'r allor ac yn boddi'r gân.

Bydd yr holl offeiriaid a'r preladiaid prudd
Yn ochneidio drwy ddefodau'r Ffydd.

Breiniol a phendefig yn y sedd
Yn moli – â llaw ar garn y cledd.

A'r esgob wrthi â'i eglwysig lais,
Fel pe bai'r Duwdod yn syr o Sais.

Weithiau ymddengys nad yw Teyrnas Dduw
Ond temel o frics ar stad y byw.

Fe'i codwyd dros nos, a'r bildar balch
Yn brolio'r sement a'r colofnau calch.

Bydd y beiciau'n boen ar y llwybr cul,
A stŵr nos Sadwrn yn stomp fore Sul.

Cysegr y Sanct a phorth y byd-a-ddaw,
A chlamp o garej a chlwb ar bob llaw.

Ac oddi mewn, rhyw gennad bach o grydd
Yn mesur morfil Jona yn enw'r Ffydd.

O Grist, â llygaid llym,
    Datguddia Deyrnas Dduw,
    – Nad braint, nad rhwysg, nad grym,
Nad rhagfarn yw;
Dim ond Dy gariad yma'n awr
Yn pwnio fel gwythïen fawr.

***Rhydwen Williams***